## Cristoleg yr Eglwys

**Darllen Effesiaid 1:13–23; Rhufeiniaid 8:12–17**

**Myfyrdod**

Ar waith Iesu o Nasareth, ar ei weinidogaeth yng Ngalilea a Jwdea, ar y Groes ac yng nghalonnau ei gadwedigion, y mae'n rhaid adeiladu ein Cristoleg, nid ar unrhyw honiadau mawreddog a wneir amdano gan ddiwinyddion, hyd yn oed yr honiadau a briodolir i Iesu ei hun gan efengylwyr y Testament Newydd. Gwaith Iesu drosom ni yw sail ein hadnabyddiaeth ohono. Rhoddwch ddiolch bob amser am osodiad bendigedig Melanchthon, Hoc est Christum cognoscere, beneficia eius cognoscere – dyma adnabod Crist, sef adnabod ei gymwynasau.  Y dywediad hwn yw allwedd fy Nghristoleg a'm diwinyddiaeth i gyd, a thyner yw fy nghof am fy hen athro C. J. Cudoux a roddai gymaint o bwyslais arno mewn ambell ddarlith.

Ond ofer y fath haeriad onis gwireddir yn ein profiad personol.  Rhyfeddu am gariad Iesu drylliedig, dyrchafedig, a'i garu'n ôl, a'i gariad yn meddiannu hanfod a dirfod, a'i ymweliadau'n llonni'r galon â'i dangnefedd, a bendith arhosol ei agosrwydd yn rhoi nerth a hyder a llawenydd – dyma'r profiad sydd yn gwneud dyn yn gyfrannog o orfoledd Thomas yr hen anghredadun sur ac yn peri iddo lefain.

'Fy Arglwydd a'm Duw!'

Trwy adnabod y Cymwynaswr a gwybod fod bywyd yn ddiystyr hebddo ac o'r diwedd fethu â byw hebddo o gwbl oll y deuir i'r gyffes sy'n rhagori ar bob Cristoleg academaidd neu enwadol neu glymbleidiol. Ymdrechwn yn yr Ysbryd am ddyfnhau'r adnabod hwn.

***Pennar Davies***